Y tîm gorau ar y ddaear

Cydweithio / Dyfalbarhau

Ar lawr y fforest mae darn o ddeilen yn symud. Os na rywbeth yn cario'r ddeilen? Ond mae mwy o ddail yn symud. Mae pryfed bychain brown yn cario'r dail yn eu cegau. Morgrug ydi'r rhain, morgrug y grawn. Mae'n nhw'n cario'r dail i'w nyth. Y gweithwyr ydi'r rhain a dyma yw eu priod waith.

Ar ôl cyrraedd y nyth, sydd fel arfer, yng nghrombil y ddaear, bydd y morgrug yn gadael y dail er mwyn i'r garddwyr fynd ati i'w cnoi. Ymhen rhai dyddiau bydd math o ffwng neu rawn yn tyfu ar y dail. Y ffwng yma sy'n cael ei fwydo i'r morgrug bychain. Gellir dweud bod y morgrug yn ffermio yng nghrombil y ddaear.

Y frenhines, morgrugyn mawr, ydi pennaeth y nyth. Hi sy'n dodwy wyau ac os bydd y frenhines yn marw yna bydd morgrug sy'n y nyth i gyd yn marw. Mae bywyd y morgrug i gyd yn troi o gwmpas y frenhines. Benywod ydi pob un morgrugyn sydd yn y nyth. Benywod ydi'r rhai sy'n chwilio am y dail a'u cario'n ôl i'r nyth. Benywod ydi'r garddwyr sy'n trin y grawn yn y nyth. Benywod ydi'r ymgymerwyr hefyd. Mae gwaith yr ymgymerwyr yn bwysig yn y nyth. Pan fydd morgrugyn yn marw bydd adar ac anifeiliaid yn sicr o ddod ar eu traws ac efallai y bydda'n nhw'n dod o hyd i'r nyth. Felly, rhag i hyn ddigwydd bydd yr ymgymerwyr yn cario'r morgrug marw i'r fynwent sy'n rhan o'r nyth. O wneud hyn fydd creaduriaid eraill ddim yn darganfod y nyth.

O dro i dro gwelir morgrugyn llai ei faint yn cael ei gario ar ddarn o ddeilen. Bydd y gweithiwr druan yn gorfod cario deilen drom a morgrugyn arni. Y rheswm am hyn yw fod cacynod bychain yn y fforest yn ymosod ar forgrug a dodwy ei hwyau ynddyn nhw. I osgoi hyn bydd y morgrug bach ar y ddeilen yn barod i ymosod ar y gacynen a'u rhwystro rhag dodwy ei hwyau yn y morgrug byw.

Mae milwyr hefyd yn byw yn y nyth. Os bydd unrhyw greadur yn ymosod ar y nyth bydd y milwyr, morgrug mawr a phennau enfawr â brathiad cynddeiriog yn dod allan i ymosod.
Mae cydweithio perffaith yn y tîm. Pob morgrugyn yn gwybod yn iawn beth yw ei safle. Y gweithwyr yn cario. Y garddwyr yn trin y grawn. Yr ymgymerwyr yn claddu. Y milwyr yn gwarchod ac amddiffyn. A'r frenhines yn dodwy a chynhyrchu mwy o forgrug.
Y tîm delfrydol. A beth yw eu cyfrinach? Cydweithio.

O Dduw, wnei di fy nysgu
i fod yn rhan o'r tîm.
Mae gan bob aelod o'r tîm
ei ran i chwarae.
Gwna fi'n aelod da a
gweithgar o'r tîm. Amen.

- O ba wlad mae morgrug y grawn yn dod?
- Beth ydi gwaith y frenhines? Os bydd y frenhines yn dodwy beth sy'n digwydd i weddill y nyth?